# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 10 Rhagfyr 2025 |
| **Pwnc:** | Cynllun Strategol Digidol Addysg 2026-2031 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Dylan Rees |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Cynghorydd Dafydd Roberts | Aelod portffolio ar gyfer Addysg a'r Iaith Gymraeg |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Aaron Evans | Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| Rhys Williams | Arweinydd Strategol Addysg (Cynradd) |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae'r Cynllun Strategol Digidol Addysg yn cyfrannu at adeiladu system addysg fodern, sy'n addas ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Mae cyfnod y Cynllun presennol wedi dod i ben yn 2024 ac felly mae angen sefydlu cynllun newydd ar gyfer y cyfnod nesaf. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cynnwys Cynllun Strategol 2026-31.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒ Er sicrwydd
☒ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☒ Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):
Rydym yn gofyn i'r Pwyllgor dderbyn cynnwys y Cynllun Strategol Digidol Addysg am y cyfnod 2026-2031 cyn iddo cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Mae Cynllun y Cyngor yn nodi'r weledigaeth:

*'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.'*



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

Mae'r amcan addysg yn nodi: "Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol."

Mae'r Cynllun Strategol Digidol Addysg yn chwarae rhan allweddol yn y weledigaeth ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad i adeiladu system addysg fodern, sy'n addas ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol—lle mae gan bob ysgol y dechnoleg, y sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen i roi'r cychwyn gorau posibl i ddysgwyr.

Mae'r cynllun strategol hwn hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Digidol y Cyngor (gweler papur cefndirol), gan greu dull cydlynol sy'n blaenoriaethu mynediad, cynhwysiant ac anghenion defnyddwyr. Mae hyn yn cefnogi addysg a gwasanaethau digidol ehangach i wireddu'r nod o greu Ynys Môn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Cynaliadwyedd
2. Cysylltedd
3. Cydweithio
4. Dysgu Proffesiynol
5. Diogelu data a gwydnwch digidol

O fewn y meysydd blaenoriaeth uchod, dylai'r pwyllgor roi ystyriaeth penodol i'r agweddau canlynol:

1. Nodi a mynd i'r afael â'r risgiau a'r heriau allweddol y mae Ysgolion yn eu hwynebu mewn seiberddiogelwch, diogelu data a gwydnwch
2. Asesu Effeithiolrwydd y Gwasanaeth Dysgu wrth Gefnogi Ysgolion i Ddatblygu eu Strategaethau Digidol Eu Hunain Trwy Gydweithio a Phartneriaeth
3. Cynlluniau rhaglen hyfforddi ar gyfer staff ac athrawon ar ddiogelwch digidol i amddiffyn plant ar y gorwel

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

Mae pump maes blaenoriaeth allweddol i'r Cynllun Strategol Digidol Addysg 2026-31 sef:

1. Cynaliadwyedd

- Hyfywedd Hirdymor: Sicrhau bod buddsoddiadau digidol yn gynaliadwy yn ariannol i osgoi tarfu yn y dyfodol.
- Dyrannu Adnoddau a Chydraddoldeb: Defnyddio cyllid yn effeithlon i gefnogi mentrau digidol presennol a'r rhai sydd ar y gweill.

2. Cysylltedd

- Seilwaith Rhwydwaith: Monitro a gwella cysylltedd ysgolion, gan gynnwys uwchraddio lled band lle bo angen.
- Diogelwch Digidol: Adolygu a datblygu systemau diogelu dysgwyr (e.e. Smoothwall, Senso).
- Cefnogaeth i Ysgolion: Darparu offer a chefnogaeth i ysgolion i weithredu datrysiadau diogelwch digidol.

3. Cydweithio

- Datblygu Strategaethau Ysgolion: Cefnogi ysgolion i greu eu strategaethau digidol eu hunain.
- Rhwydweithiau Cydlynwyr Digidol: Cryfhau rôl cydlynwyr digidol mewn ysgolion.
- Arweinyddiaeth a Rhannu Arfer Da: Hyrwyddo arweinyddiaeth leol a rhannu arferion gorau drwy glystyrau a rhwydweithiau.

4. Dysgu Proffesiynol

- Rhaglenni Hyfforddiant: Cydweithio i greu rhaglenni datblygiad proffesiynol ar gyfer staff.
- Integreiddio Technoleg: Hyfforddiant ar ddefnyddio offer digidol yn y cwricwlwm.
- Adborth a Gwerthuso: Trefnu systemau adborth gyda chlystyrau ac ysgolion.
- Cysoni Meddalwedd a Chaledwedd: Gweithio gyda thîm TG y cyngor i gydlynu adnoddau.

5. Diogelu Data a Gwydnwch

- Diogelwch TGCh: Blaengynllunio ar gyfer diogelwch seiber a rheoli mynediad.
- Mudo Data i Hwb SharePoint: Symud data o storfa ar y safle i blatfform cenedlaethol.
- Uwchraddio Diogelwch: Amgryptio dyfeisiau, defnyddio datrysiadau ffiltro cwmwl, a darparu mynediad diogel i staff.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r cynllun strategol yma yn ymdrechu i sicrhau bod gan bob disgybl, waeth beth fo'u cefndir neu leoliad, fynediad cyfartal at adnoddau digidol. Trwy feithrin sgiliau digidol ymhlith disgyblion a staff, mae'r cynllun strategol yn cefnogi'r nod ehangach o greu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Mae’r cynllun yn sicrhau darpariaeth dyfeisiau digidol modern a chysylltedd bwrpasol ar gael i ysgolion, gan leihau’r bwlch digidol dysgwyr. Mae’n cefnogi pob dysgwr (gan gynnwys y rhai difreintiedig) i gael mynediad at adnoddau addysg ar-lein, gan roi’r un cyfle i bawb i lwyddo yn yr ysgol, waeth beth yw eu cefndir economaidd.

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg

Mae’r cynllun strategol yma yn ymdrechu i sicrhau bod gan bob disgybl fynediad cyfartal at adnoddau digidol drwy’r Gymraeg a'r Saesneg.

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

Amherthnasol

**8. Goblygiadau ariannol**

Er bod y Cyngor gyda swm wedi clustnodi i ariannu’r cynllun yn y dyfodol, mae’n anhebyg fod y swm sydd wedi clustnodi hyd at rwan yn ddigonol a fydd angen ycwhanegu at y gronfa, ond fydd hyn yn heriol yn y sefyllfa ariannol mae’r Cyngor yn i wynebu ar hyn o bryd.

**9. Atodiadau**

Cynllun Strategol Digidol Addysg 2026-2031

**10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir**

Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion Ynys Mn.pdf

Adroddiad Diwedd Cyfnod - Cynllun Strategol Digidol ar gyfer Ysgolion 2022-2024
*Awduron – Aaron Evans (Cyfarwyddwr Addysg) a Mathew Henshaw (Prif Swyddog Digidol)*

Cynllun Strategol Digidol Cyngor Ynys Môn
https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Digidol/Cynllun-Strategol-Digidol.pdf